Cyllid &
Thollau EM

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

**Date** 20 Medi 2019

Annwyl gwsmer,

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd bod ein cofnodion yn dangos bod eich busnes wedi cofrestru ar gyfer TAW a'ch bod yn masnachu â'r UE. Mae hyn yn golygu y bydd newidiadau'n effeithio arnoch pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019.

## Y camau nesaf y mae angen i chi eu cymryd er mwyn paratoi ar gyfer Brexit

Erbyn hyn, dylai fod gennych eich rhif EORI (Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd) sy'n dechrau gyda 'GB'. Bydd angen hwn arnoch ar gyfer mewnforio ac allforio pan fyddwn yn gadael yr UE. Ond mae rhagor o bethau y gallwch eu gwneud i baratoi'ch busnes.

Gallwch wneud y canlynol:

- defnyddio'r rhestr wirio dros y dudalen i ddechrau gweithio drwy'r camau a'r penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud nawr
- cael gwybod a oes angen rhif EORI yn yr UE arnoch hefyd, drwy ddarllen ein taflen chwalu chwedlau EORI – ewch i **www.gov.uk/government/publications/hmrc-brexit-communications-resources**
- mynd ar-lein i ddod o hyd i ganllawiau cam wrth gam manylach
  - yn achos mewnforwyr, ewch i **www.gov.uk/prepare-import-to-uk-after-brexit** – rydym wir yn argymell eich bod yn ystyried TSP (Gweithdrefnau Symlach Dros Dro) i wneud eich mewnforio mor hawdd â phosibl
  - yn achos allforwyr, ewch i **www.gov.uk/prepare-export-from-uk-after-brexit** – a chanolbwyntio ar ddeall pa wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi i'r person rydych yn gwerthu nwyddau iddo, er mwyn iddo allu cwblhau'r trafodiad
- cael y diweddaraf am Brexit, gan gynnwys manylion gweminarau y byddwn yn eu cynnal sy'n sôn am fewnforio ac allforio â'r UE ar ôl 31 Hydref
  - cofrestrwch ar gyfer ein gwasanaeth e-bost, sy'n rhad ac am ddim, i gael y newyddion diweddaraf – ewch i **www.gov.uk/hmrc/business-support** gan ddewis yr opsiwn ar gyfer e-byst helpu ac addysgu busnesau, ac yna dewiswch Brexit

Yn gywir

**Jim Harra**
Dirprwy Brif Weithredwr, CThEM

Llywodraeth EM

BREXIT 31 HYDREF

# Byddwch yn barod wrth i'r DU adael yr UE

Os ydych yn prynu unrhyw eitemau ar gyfer eich busnes o wledydd yn yr UE, neu'n gwerthu cynnyrch i gwsmeriaid yng ngwledydd yr UE, hyd yn oed os gwnewch hynny unwaith y flwyddyn yn unig, bydd trefniadau newydd ar gyfer mewnforio ac allforio yn effeithio arnoch ar ôl 31 Hydref.

Dechreuwch drwy ddilyn y camau isod i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd wrth i 31 Hydref nesáu.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Ar eich marciau

- [x] Defnyddiwch y rhestr wirio hon i ddeall yr hyn y mae angen i chi ei wneud
- [ ] **Bydd angen rhif EORI yn y DU arnoch, sy'n dechrau gyda GB.** Ni fyddwch yn gallu symud nwyddau i mewn i'r DU ac oddi yno heb un, ac mae'n cymryd llai na deng munud i wneud cais
- [ ] Bydd angen ffurflenni tollau arnoch. Os ydych am symud eitemau i mewn i'r DU neu symud eitemau oddi yno, bydd angen sgiliau a meddalwedd arbenigol arnoch. Ewch ati i benderfynu a allwch wneud hyn eich hun, neu gofynnwch i arbenigwr tollau wneud hyn ar eich rhan
- [ ] Ewch i GOV.UK i ddod o hyd i arweiniad ynghylch Brexit a **help ar gyfer mewnforio** a **help ar gyfer allforio**

## Barod

**Os ydych yn prynu eitemau o wledydd yr UE er mwyn dod â nhw i'r DU:**

- [ ] **Gwnewch gais am weithdrefnau mewnforio symlach**, a elwir yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro, er mwyn cael amser ychwanegol i gyflwyno'ch dogfennau tollau
- [ ] **Gwiriwch y doll** y bydd yn rhaid i chi ei thalu ar eitemau rydych yn dod â nhw i'r DU
- [ ] **Gwnewch gais am gyfrif ar-lein** i'w gwneud yn haws i dalu trethi

**Os ydych yn gwerthu cynnyrch i'r UE, bydd angen i chi wneud y canlynol:**

- [ ] Gwirio gyda'r bobl neu'r cwmni sy'n symud eich cynnyrch – er enghraifft, eich gwasanaeth postio neu'ch cludwr – i gael gwybod a oes angen rhagor o wybodaeth arnynt oddi wrthych er mwyn parhau i wneud hyn
- [ ] Gwirio bod y bobl rydych yn gwerthu cynnyrch iddynt yn barod i ddod â'ch nwyddau i mewn i'w gwlad, eu bod yn dilyn prosesau tollau'r wlad honno, a'u bod yn barod i anfon y gwaith papur perthnasol atoch (er enghraifft, y datganiad mewnforio)

## Ewch

**Rydych bellach wedi cymryd y camau cyntaf i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit**

- [ ] **Cofrestrwch i gael y diweddaraf oddi wrth CThEM am Brexit** er mwyn i ni allu rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd

## Mae rhagor o wybodaeth ar GOV.UK **am Ogledd Iwerddon ac Iwerddon.**